



## **POLISI YSGOL TRYFAN YNGLYN Â DEFNYDDIO GRYM RHESYMOL**

### **NOD**

Ymateb i ofynion y ddogfen Defnyddio Grym i Reoli neu Atal Disgyblion, sef y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 93 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, a oedd yn disodli Adran 550A o Ddeddf Addysg 1996, gyda mân newidiadau. Bwriad y polisi yw sicrhau eglurder wrth ymdrin â disgyblion lle mae'n bridol defnyddio grym rhesymol.

### **DATGANIAD**

**'Mae Ysgol Tryfan yn ysgol gynhwysol sy'n sicrhau amgylchedd cefnogol lle gwneir pob ymdrech i ddatrys problemau mewn modd cadarnhaol. Serch hynny, mae Corff Llywodraethol Ysgol Tryfan yn derbyn ac yn gweithredu Canllawiau Awdurdod Addysg Gwynedd ynglŷn â defnyddio Grym Rhesymol.'**

### **DULL GWEITHREDU**

- 1 Mae pob athro/athrawes, gweinyddwr/gweinyddes a gyflogir gan yr awdurdod yn berson awdurdodedig ar gyfer defnyddio grym rhesymol.  
  
Bydd y Corff Llywodraethol yn trefnu hyfforddiant penodol ar gyfer pob aelod o staff dysgu.
- 2 Bydd y Corff Llywodraethol yn penderfynu pa staff ategol fydd a'r hawl awdurdodedig i ddefnyddio grym rhesymol ac yn trefnu hyfforddiant penodol ar eu cyfer.
- 3 Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod pob aelod o'r staff sy'n gorfod ymyrryd yn gorfforol â disgyblion yn deall yn glir y dewisiadau a'r strategaethau sydd ar agor iddynt. Hysbysir rhieni o'r drefn drwy ddatganiad am y polisi yn llawlyfr yr ysgol a thrwy lythyr.
- 4 Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod gweithgor a dulliau ymyrryd wedi eu cynllunio yn seiliedig ar ganllawiau Awdurdod Addysg Gwynedd

parthed :

- Lleihau'r angen i ddefnyddio grym
- Arfarnu Risg gan gynnwys risg unigol
- Penderfynu pryd i ddefnyddio grym
- Defnyddio grym yn rhesymol
- Hyfforddi staff
- Cofnodi digwyddiadau
- Adrodd ar ddigwyddiadau
- Cymorth yn dilyn digwyddiadau
- Gweithdrefnau cwyno ac amddiffyn plant
- Cwynion a Chyhuddiadau
- Monitro ac adolygu

- 5 Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod yr ysgol yn cynnig cymorth a chynhaliaeth yn syth i aelodau'r staff oedd ynghlwm â'r digwyddiad. Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod yr ysgol yn cynnig cymorth i'r disgybl, a chynhaliaeth i'r disgybl i gynnwys ei farn am yr amgylchiadau yn arwain at y digwyddiad yn ogystal â'r digwyddiad ei hun.
- 6 Yn dilyn derbyn cwyn ysgrifenedig bydd y Pennaeth neu Cadeirydd y Llywodraethwyr yn dilyn y Canllawiau Amddiffyn Plant.
- 7 Adolygir y polisi
- 1) yn flynyddol
  - 2) yn dilyn unrhyw ddiwygiadau i ganllawiau'r Cynulliad a/neu'r Awdurdod Lleol
  - 3) yn dilyn digwyddiad o fewn yr ysgol.

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_ Pennaeth

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_ Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: \_\_\_\_\_